GENERAL TEACHING COUNCIL FOR WALES
CYNGOR ADDYSGU CYFFREDINOL CYMRU

COFNODION UNFED CYFARFOD AR DDEG AR HUGAIN CYNGOR ADDYSGU CYFFREDINOL CYMRU

DYDDIAD: 1AF Mai 2008

LLEOLIAD: GWESTY LLYS LLANDYFÁI, LLANDYFÁI, PENFRO

Yn bresennol:
Aelodau:

Mal Davies (Cadeirydd)	Valerie Merriman
Jacquie Turnbull (Dirprwy Gadeirydd)	Jane Morris
Neil Butler	Suzanne Nantcurvis
Tim Cox	Rosemond Nelson
Elwyn Davies	Hugh Pattrick
Mike Edwards	Anne Robertson
Ian Guy	Jane Setchfield
Anthony Hughes	Sarah Stockford
Angela Jardine	Jacky Tonge
Hélène Mansfield	Gwen Williams

Ymddiheuriadau:

Phil Bassett	Frank Bonello
Sheila Drayton	

Swyddogion:

Gary Brace	Prif Weithredwr
Hayden Llewellyn	Dirprwy Brif Weithredwr (Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol)
Julia Evans	Dirprwy Brif Weithredwr (Cyllid, Personél a Gwasanaethau Corfforaethol)
Kevin Pascoe	Rheolwr Polisi a Chynllunio
Jo Harris	Swyddog Cymorth Corfforaethol (Ysgrifenyddiaeth)

1. Croeso a Sylwadau Agoriadol

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i unfed cyfarfod ar ddeg ar hugain y Cyngor a chadarnhaodd y byddai'r cyfarfod yn cael ei gynnal yn ddwyieithog. Roedd ymddiheuriadau wedi'u derbyn gan Phil Bassett, Frank Bonello a Sheila Drayton.

1.2 Estynnwyd croeso i'r arsyllwyr yn yr oriel gyhoeddus.

1.3 Aeth y Cadeirydd ymlaen i groesawu Tom Hamilton (Cyfarwyddwr Polisi Addysgol, Cyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban) a oedd yn mynychu'r cyfarfod fel arsyllwr. Adroddodd fod y Cyngor wedi cynnal cyfarfod blynyddol llwyddiannus o Gadeiryddion a Phrif Weithredwyr CyngACau y DU ac Iwerddon ar 26ain Chwefror 2008.

1.4 Hysbyswyd yr aelodau bod Kevin Pascoe yn mynychu ei gyfarfod olaf gyda'r Cyngor yn ei swydd am gyfnod penodedig fel y Rheolwr Polisi a Chynllunio. Cymerodd y Cadeirydd y cyfle i gynnig ei ddiolchiadau am ei waith ar ran y Cyngor dros yr 8 mis

diwethaf. Hefyd, cyflwynwyd Joy Austin i'r aelodau fel Cynorthwyydd Gweithredol y Prif Weithredwr a oedd newydd ei phenodi. Byddai llythyr yn cael ei anfon at yr aelodau'n amlinellu priod rolau'r Cynorthwyydd Gweithredol a'r Swyddog Cymorth Corfforaethol.

2. Datganiadau o Ddiddordeb

2.1 Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

3. Gohebiaeth y Cadeirydd

3.1 Nid oedd unrhyw eitemau o dan Ohebiaeth y Cadeirydd.

3.2 Yna, hysbyswyd yr aelodau gan y Prif Weithredwr, fel y Swyddog Canlyniadau, bod Mal Davies wedi'i ailethol fel Cadeirydd y Cyngor. Roedd aelodau wedi'u hysbysu o hyn mewn llythyr ar 29ain Ebrill 2008 a gofynnwyd am enwebiadau i swydd y Dirprwy Gadeirydd. Byddai angen cyflwyno'r rhain i'r Swyddog Canlyniadau erbyn canol dydd ar yr 20fed Mai 2008.

4. Cofnodion drafft cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd 5ed Chwefror 2008

4.1 Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod yn gofnod cywir ond am ddau gywiriad.

Cofnod 17.5: Proffesiynoli'r Sector Dysgu Gydol Oes:

4.2 Cytunwyd y dylid diwygio rhan o'r cofnod (Saesneg) i ddarllen: “Cyflwynodd y Dirprwy Gadeirydd ei barn y dylid gwarantu safonau tebyg i bobl ifanc 14-19 oed waeth bynnag lleoliad cyflwyno'r addysg.”

Cofnod 15.2: Trefniadau Arolygu Estyn yn y Dyfodol - datblygu safbwynt i'r Cyngor:

4.3 Byddai'r testun (Saesneg) yn cael ei ddiwygio i ddarllen: “Ychwanegodd ei farn y byddai rôl Estyn ac arolygu preifat yn cael eu lleiafu, gyda chefnogaeth ymgynghorwyr ac AALlau”

Materion yn codi:

40.4 Cofnod 3.6: Gohebiaeth y Cadeirydd: Gofynnodd un aelod am y diweddaraf ar nifer yr ymholiadau a dderbyniwyd yn dilyn cynyddu ffi gofrestru'r Cyngor. Adroddodd Hayden Llewellyn – (*Dirprwy Brif Weithredwr, Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon*) fod 130 o alwadau ffôn a 60 o ebyst/llythyrau wedi'u derbyn a'u trafod.

4.5 Nid oedd unrhyw faterion eraill yn codi.

5. Derbyn hysbysiad am unrhyw faterion y dymunai aelodau eu codi mewn perthynas ag Eitemau a nodir ar yr Agenda ‘Er Gwybodaeth’ (19 i 27)

5.1 Nododd un aelod ei ddymuniad i drafod Cynllun Corfforaethol 2008-2011 a Chynllun Gweithredol 2008-09 y Cyngor. Roedd y rhain yn dod o dan eitem 18 ar yr agenda ac felly’n cael eu trafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod.

6. Cofnodion Drafft cyfarfod y Pwyllgor Gweithredol a gynhaliwyd 12fed Mawrth 2008

6.1 Cyflwynwyd y cofnodion hyn gan y Prif Weithredwr a chynghorwyd yr aelodau y byddai'r holl faterion yn cael eu trafod ar agenda'r cyfarfod.

6.2 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

6.3 Nodwyd y cofnodion heb eu cadarnhau.

7. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Polisi a gynhaliwyd 12fed Mawrth 2008

7.1 Cyflwynwyd y cofnodion hyn gan y Prif Weithredwr, gan gynghori y byddai'r holl eitemau ond un yn cael eu trafod ar agenda'r cyfarfod.

7.2 Hysbyswyd yr aelodau y byddai mater datblygu safbwynt i'r Cyngor ar AHCA (Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon) yn cael ei drafod ymhellach yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Polisi ar 13eg Mehefin 2008. Byddai adroddiad yn dod gerbron y Cyngor yn ei gyfarfod nesaf ar 11eg Gorffennaf 2008. Roedd yr aelodau'n fodlon ar yr wybodaeth hon.

7.3 Nid oedd unrhyw faterion eraill yn codi.

7.4 Nodwyd y cofnodion heb eu cadarnhau.

8. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Cofrestru a gynhaliwyd 18fed Mawrth 2008

8.1 Cyflwynwyd y cofnodion hyn i'r Cyngor gan Hugh Pattrick, a wahoddodd yr aelodau i godi unrhyw faterion yn codi.

Materion yn codi:

8.2 Cofnod 3: Diweddariad ar Gofrestru: Adroddodd y Cadeirydd y bu angen i swyddogion y Cyngor ddatrys camddealltwriaeth gyda nifer bach o AALlau mewn perthynas â'r broses casglu ffïoedd yn dilyn cynyddu ffi gofrestru'r Cyngor ar gyfer 2008/09. Yn gyntaf, rhoddodd Hayden Llewellyn (*Dirprwy Brif Weithredwr, Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon*) sicrwydd i'r aelodau bod y broses casglu ffïoedd wedi'i chwblhau'n llawn erbyn hyn. Esboniodd fod llythyr gan ADEW (Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru), a ddosbarthwyd i'r holl AALlau, wedi peri dryswch ynghylch pa swm oedd i'w ddebydu o gyflogau athrawon. Roedd hyn wedi'i ddatrys yn gyflym drwy lythyr esboniadol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

8.3 Cofnod 5.20: Cadw gorchmynion wedi darfod ar y Gofrestr: Croesawodd un aelod y cofnod drafft a nododd nad oedd yn fwriad gan y Dirprwy Brif Weithredwr argymell y dylai'r Cyngor gadw gorchmynion disgyblu a oedd wedi darfod yn erbyn enwau athrawon ar ei Gofrestr Athrawon Cymwys nac ystyried bod gwybodaeth o'r fath ar gael i'w datgelu i gyflogwyr a darpar gyflogwyr fel y bwriadwyd gan GyngACLl.

8.4 Nid oedd unrhyw faterion eraill yn codi.

8.5 Nodwyd y cofnodion heb eu cadarnhau.

9. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd 18fed Mawrth 2008

9.1 Yn absenoldeb Cadeirydd y Pwyllgor, cyflwynwyd y cofnodion hyn gan Anthony Hughes.

9.2 Cododd Anthony Hughes ei bryder mai dim ond 2 aelod a oedd wedi mynychu'r Pwyllgor Archwilio'n rheolaidd, er bod swydd wag ar gael. Cytunwyd y dylid gwahodd datganiadau o ddiddordeb gan nifer o unigolion nad oeddent yn aelodau o'r Cyngor

ond a fyddai'n atgyfnerthu arbenigedd ariannol y Pwyllgor. Byddai aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn dethol yr ymgeisydd mwyaf addas.

9.3 Aeth ymlaen i amlygu'r Adroddiad Archwilio Mewnol a oedd wedi'i dderbyn gyda'r sicrwydd uchaf a gofynnwyd i ddiolchiadau'r Pwyllgor i Julia Evans *(Dirprwy Brif Weithredwr, Cyllid, Personél a Gwasanaethau Corfforaethol)* a Thîm Cyllid y Cyngor gael eu nodi. Eiliwyd hyn gan y Cadeirydd.

9.4 Hysbyswyd yr aelodau hefyd bod *Grant Thornton* wedi'u penodi gan Swyddfa Archwilio Cymru fel yr archwilwyr mewnol. Tynnodd Mr Hughes sylw at y berthynas hynod ddefnyddiol a allai fod o gymorth mawr i'r Cyngor.

9.5 Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion. Cymerodd y Cadeirydd y cyfle i gydnabod y swydd wag a oedd yn bodoli ar y Pwyllgor Archwilio ac ar y Cyngor yn gyffredinol. Soniodd ei fod wedi bod yn rhan o'r gwaith didoli ceisiadau ar 30ain Ebrill 2008 a oedd yn mynd rhagddo drwy law swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhan o'i phroses enwebiadau a phenodiadau.

9.3 Nodwyd y cofnodion heb eu cadarnhau.

10. Cofrestru, SAC a Sefydlu (CyngACC 20/08)

10.1 Cyflwynwyd y papur hwn gan Hayden Llewellyn (*Dirprwy Brif Weithredwr, Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon*), gan dynnu sylw at bedwar prif faes yr adroddiad. Y rhain oedd proses ffi gofrestru flynyddol CyngACLl, y Crynodeb Ystadegau, a diweddariadau ar waith y Cyngor ar SAC a Sefydlu.

10.2 Yn dilyn y diweddariad cryno a roddwyd i'r aelodau'n gynharach yn y cyfarfod, aeth Hayden Llewellyn ymlaen i adrodd bod ffïoedd cofrestru wedi'u casglu gan 38,942 o athrawon yng Nghymru. Roedd mwyafrif y rheiny a gofrestrwyd yn athrawon o ysgolion a gynhelir ac ysgolion Sylfaen ond roeddent hefyd yn cynnwys tua 6,500 a oedd yn gweithio fel athrawon cyflenwi neu rai a oedd wedi dewis parhau â'u cofrestriad ar ôl ymddeol. Cadarnhaodd fod y broses gasglu wedi'i chwblhau bellach.

10.3 Yna tynnodd sylw at y seithfed Crynodeb Ystadegau Blynyddol a oedd wedi'i baratoi gyda dyddiad cyfrifiad o 1af Mawrth 2008 ac a gâi ei ddosbarthu i bob ysgol, Awdurdod Addysg Lleol, undeb athrawon a sefydliad perthnasol arall.

10.4 Tynnwyd sylw'r aelodau at y ffaith bod cofrestru amodol yn cael ei ddatblygu yn Lloegr. Roedd Deddf Addysg 2002 yn darparu i Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru a Chyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr gyflwyno trefniadau cofrestru amodol. Nododd Hayden Llewellyn y byddai trefniadau CyngACC yn dechrau gydag athrawon dan hyfforddiant o fis Medi 2008 a chydag athrawon a hyfforddwyr a hyfforddwyd dramor (fel y diffiniwyd yn y Rheoliadau Gwaith Penodedig) sy'n gweithio mewn ysgolion a gynhelir o fis Medi 2009. Cynghorwyd yr aelodau na fyddai Cyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr yn disgwyl i'r rheiny oedd yn cofrestru ar gofrestriad amodol dalu ffi.

10.5 Atgoffodd yr aelodau o safbwynt y Cyngor fel y cytunwyd ym mis Hydref 2005 sef y dylai barhau i ystyried pob math o gofrestru fel ôl-SAC a chyngor y Cyngor i'r Gweinidog yn 2006 sef y dylid ail-linio cofrestru llawn â'r safon Sefydlu.

10.6 Roedd aelodau wedi'u gwahodd hefyd i nodi gwaith y Cyngor wrth weinyddu a dyfarnu SAC a chyhoeddi tystysgrifau Sefydlu. Roedd y ddau faes gwaith yn mynd rhagddynt yn foddhaol.

10.7 Nodwyd yr adroddiad ac aeth yr aelodau ymlaen i geisio eglurhad ar nifer o bwyntiau. Cynghorodd Hayden Llewellyn un aelod na fyddai athrawon a oedd yn dymuno peidio â pharhau â'u cofrestriad ar ôl talu am y flwyddyn yn derbyn ad-daliad. Codwyd pryder

hefyd am y gwahaniaeth yn y ffi a oedd yn bodoli nawr rhwng Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru a Chyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr ac a fyddai angen i athrawon dalu'r gwahaniaeth os yn symud swydd o Loegr i Gymru. Rhoddwyd sicrwydd bod y trefniant dwy ffordd a fodolai rhwng y ddau Gyngor yn golygu na fyddai angen talu unrhyw ffi ychwanegol.

10.8 Gan symud ymlaen i'r Crynodeb Ystadegau, esboniodd Hayden Llewellyn fod y dadansoddiad ystadegol a wnaed ar y "pwnc y cafwyd hyfforddiant ynddo o'i gymharu â'r pwnc a addysgir" yn cynnwys athrawon a oedd yn gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Er bod data cyfrwng Cymraeg penodol yn cael ei gadw ar Gofrestr Buddiannau Aelodau'r Cyngor, nid oedd digon o wybodaeth ar gael eto i gynnal dadansoddiad cadarn. Byddai hyn cael ei gyflawni rywbryd yn y dyfodol.

10.9 Holodd aelod arall am y gost a godwyd ar athrawon cyflenwi a oedd yn talu'r ffi gofrestru eu hunain. Awgrymodd y gallai'r Cyngor benderfynu y dylai'r ad-daliad sydd ar gael gan yr STRB (Corff Adolygu Athrawon Ysgol) hefyd fod ar gael i dalu dros athrawon cyflenwi. Ymatebodd y Prif Weithredwr. Er ei fod yn cydymdeimlo â sefyllfa athrawon cyflenwi, esboniodd nad oedd gorchwyl gan y Cyngor mewn perthynas â chyflogau ac amodau athrawon ac y byddai angen i'r undebau athrawon ystyried y mater hwn.

10.10 Roedd yr aelodau'n fodlon ar yr adroddiad.

11. Adroddiad Cyllido Sefydlu a DPC (CyngACC 21/08)

11.1 Wrth gyflwyno'r papur hwn, gwahoddodd Hayden Llewellyn (*Dirprwy Brif Weithredwr, Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon*) yr aelodau i nodi'r cynnydd yn y maes gwaith hwn ac amlygodd 2 brif fater i roi sylw iddynt. Y rhain oedd dadansoddi'r gweithgareddau a fwriadwyd a'r union weithgareddau a gynhaliwyd ar gyfer DPC athrawon yng Nghymru, ac os yn briodol, cymeradwyo canllawiau diwygiedig i ysgolion gyrchu cyllid ar gyfer Sefydlu a DPC athrawon yng Nghymru.

11.2 Roedd y Cyngor wedi derbyn cyfrifoldeb am weinyddu cyllid Sefydlu a DPC yng Nghymru o 1af Medi 2006. Roedd y trefniadau a nodwyd yn y ddogfen "*Cyrchu Cyllid ar gyfer Sefydlu a Datblygiad Proffesiynol Cynnar"* wedi bod ar waith ers 7fed Gorffennaf 2006 ac yn cael eu defnyddio gan ysgolion ac AALlau fel pwynt cyfeirio.

11.3 Darparwyd diweddariad i'r aelodau ar gyfanswm y cyllid a dalwyd i athrawon yng Nghymru ar gyfer eu Sefydlu a'u Datblygiad Proffesiynol Cynnar. Adroddodd Hayden Llewellyn fod gwaith y Cyngor yn mynd rhagddo yn unol â'r amserlen fwriadedig a bod archwiliad allanol diweddar wedi bod yn bositif iawn. Yna gofynnwyd i'r aelodau ystyried y dadansoddiad o'r gweithgareddau DPC ac i nodi'r duedd a oedd yn ymddangos sef bod mwyafrif y cyllid yn cael ei ddefnyddio ar gyfer mynychu cyrsiau.

11.4 Trafododd yr aelodau'r ffaith bod athrawon yn dewis dysgu drwy fynychu cyrsiau ar gyfer eu DPC. Roedd un aelod o'r farn bod y math o gwrs a ddilynwyd o bwys ac y dylai'r AALlau gyllido'r rheiny y tybiwyd eu bod at ddibenion 'cynnal' o'u cymharu â chyrsiau a oedd yn datblygu effeithiolrwydd unigolion yn yr ystafell ddosbarth a ddylai gael eu cyllido gan y Cyngor. Roedd yr aelodau'n cytuno.

11.5 Cadarnhaodd y Cadeirydd sylwadau a phryderon yr aelodau ynghylch defnydd o'r cyllid a weinyddir gan y Cyngor a chefnogodd y bwriad i fonitro'r tueddiadau a oedd yn ymddangos. Atgoffodd y Prif Weithredwr yr aelodau o'i erthygl agoriadol yn rhifyn y gaeaf 2007 o *Addysgu Cymru* lle apeliodd ar i benaethiaid ddiogelu'r £3 miliwn sydd ar gael i athrawon yng Nghymru ar gyfer eu datblygiad proffesiynol unigol.

11.6 Atgoffodd Hayden Llewellyn (*Dirprwy Brif Weithredwr, Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon*) yr aelodau bod gwahoddiad Llywodraeth Cynulliad

Cymru i'r Cyngor ymdrin â'r gwaith o weinyddu Cyllid Sefydlu a DPC yn mynnu 'ymagwedd ysgafn'. Er y byddai'r duedd i ddethol hyfforddiant drwy gyrsiau'n cael ei monitro, dylid cadw hyblygrwydd ac amlygwyd yr ymagwedd wahanol sydd ar waith mewn perthynas â DPC (Datblygiad Proffesiynol Parhaus) athrawon.

11.7 Roedd yr aelodau'n fodlon nodi'r adroddiad.

11.8 Hysbyswyd yr aelodau hefyd bod swyddogion y Cynulliad yn fodlon ar y gweithdrefnau arweiniad diwygiedig. Cymeradwyodd yr aelodau'r ddogfen arweiniad ddiwygiedig. Byddai felly'n cael ei chyhoeddi i ysgolion ac AALlau ym mis Mehefin 2008.

12. Adroddiad rhaglen Gyllido Datblygiad Proffesiynol (CyngACC 22/08)

12.1 Rhoddodd Hayden Llewellyn (*Dirprwy Brif Weithredwr, Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon*) amlinelliad bras o'r papur a rannwyd yn ddwy ran, sef, y rhaglenni cyllid 2007-08 a 2008-09.

Rhaglen Gyllido 2007-08:

12.2 Roedd yr adroddiad hwn yn darparu diweddariad i'r aelodau ar waith y Cyngor mewn perthynas â gweinyddu'r rhaglen gyllido datblygiad proffesiynol i athrawon yng Nghymru ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru. Cyfanswm lefel y cyllid a oedd ar gael i'r Cyngor yn 2007-08 oedd £2.86 miliwn gyda £530k o gyllid ychwanegol yn cael ei gynnig yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol o grant ychwanegol y Cynulliad a throsglwyddiad o weithgarwch cyllid grant arall.

12.3 Hysbyswyd yr aelodau bod materion staffio a chynnydd sylweddol yn nifer y ceisiadau wedi arwain at rywfaint o bwysau wrth gwblhau'r cylch presennol o hawliadau terfynol, yn arbennig o ystyried y ffaith bod tua £1 miliwn yn ychwanegol wedi'i ddyrannu o gymharu â 2006-07. Ar 9fed Ebrill 2008, roedd £2.126 miliwn wedi'i ddosbarthu i athrawon yng Nghymru ar gyfer eu DPP â ffocws unigol. Roedd swyddogion yn ceisio cwblhau gwaith mewn perthynas â rhaglen 2007-08 erbyn diwedd Ebrill 2008.

Rhaglen Gyllido 2008-09:

12.4 Byddai cyfanswm o £2.978 miliwn ar gael i'r Cyngor gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, gyda £360,000 ohono wedi'i neilltuo i dalu cost cynnal peilot y rhaglen datblygiad proffesiynol Athro Siartredig yng Nghymru.

12.5 Adroddodd Hayden Llewellyn (*Dirprwy Brif Weithredwr, Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon*) y newyddion cadarnhaol bod dros 800 o geisiadau ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd wedi'u derbyn hyd yma. Deallwyd gan swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru nad oedd yn debygol y byddai cyllid ychwanegol ar gael. Ar y sail hon, disgwyliwyd y byddai'r cyllid yn cael ei ddyrannu erbyn mis Hydref/Tachwedd 2008.

12.6 Rhoddodd y Prif Weithredwr sicrwydd i'r aelodau y byddai swyddogion yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru i geisio cael hyd i gyllid pellach. Byddai'r aelodau yn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf yn gyson. Soniodd am y problemau a wynebwyd yn ystod blwyddyn ariannol 2004-05 pan gyfyngwyd y cyllid fesul tymor ac arweiniodd hyn at effaith 'argaeledd tameidiog' a oedd yn hynod andwyol i ymateb athrawon i'r rhaglen gyllido.

12.7 Aeth ymlaen i gefnogi pryderon yr aelodau mewn trafodaeth flaenorol am y defnydd o gyllid a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru at ddibenion DPP â ffocws unigol ar gyfer cyrsiau lefel isel. Rhoddwyd sicrwydd i'r aelodau bod swyddogion yn asesu ceisiadau am gyllid DPP yn fanylach na'r ymagwedd 'ysgafn' sy'n ofynnol ar gyfer Sefydlu a DPC. Pan yn bosibl, câi ymgeiswyr eu cyfeirio i sicrhau cyllid drwy weithgareddau eraill a oedd yn bodloni'r meini prawf cytunedig ond caent eu gwrthod os na fyddent yn gymwys.

12.8 I gloi, dywedodd un aelod, wrth gyfeirio at swm cyfyngedig y cyllid sydd ar gael i athrawon yn y flwyddyn gyllido bresennol, y byddai'n bwysig sicrhau nad oedd unrhyw geisiadau amhriodol yn cael eu cymeradwyo a fyddai'n golygu gwrthod ceisiadau dilys oherwydd prinder cyllid. Caeodd y Cadeirydd y drafodaeth drwy ddweud y byddai hyn yn digwydd tra'n ymdrechu i osgoi proses a allai fod yn or-fiwrocrataidd.

13. Diweddariad ar Safonau Proffesiynol (CyngACC 23/08)

13.1 Yn gyntaf, atgoffodd y Prif Weithredwr yr aelodau y byddai sesiwn anffurfiol yn dilyn y cyfarfod i gynnwys cyflwyniad ar oblygiadau'r Ddeddf Diogelu Grwpiau Agored i Niwed gan Mike Burns o Lywodraeth Cynulliad Cymru. Aeth ymlaen i amlygu'r prif bwyntiau i'w trafod, sef nifer y bobl a oedd ar gael erbyn hyn i eistedd ar y Pwyllgor Safonau Proffesiynol; roedd y Cod Proffesiynol ar gyfer Athrawon ar fin cael ei adolygu; rhannu gwybodaeth disgyblu rhwng rheoleiddwyr iechyd a'r goblygiad ar gyfer cyrff rheoleiddio Ewropeaidd ers i'r Cyngor Meddygol Cyffredinol lofnodi Cytundeb Portiwgal.

13.2 Gan wahodd trafodaeth, gosododd y Prif Weithredwr yr her o sicrhau cysondeb wrth ddod i benderfyniadau am faes gwaith Safonau Proffesiynol y Cyngor. Roedd 45 o bobl erbyn hyn, a 6 pherson ychwanegol wedi i'r aelodau newydd eu hethol ymsefydlu yn eu gwaith, ar gael i fod yn rhan o bwyllgorau safonau a gallai hyn droi'r fwy o her am y byddai pob unigolyn yn 'gwrando' ar lai o achosion. Yn ogystal, roedd symudiad cynyddol ymysg rheoleiddwyr yn y DU a thramor i ddangos eglurder i'r cyhoedd drwy wahanu'r rôl rhwng pobl oedd yn gyfrifol am bolisi a gwneud penderfyniadau yn y sefydliad a'r rheiny sy'n rhan o Bwyllgorau Safonau Proffesiynol. Gwahoddwyd yr aelodau i ystyried a ellid rhannu carfan y bobl newydd oedd ar gael er mwyn iddynt arbenigo mewn rhannau penodol o waith achosion a/neu fathau o achosion.

13.3 Yna tynnodd y Cadeirydd sylw'r aelodau at ddyddiad yr Hyfforddiant Diweddaru Disgyblu Blynyddol a fyddai'n cael ei gynnal yn fuan. Roedd chwe chyn-aelod a chwe aelod presennol wedi rhoi eu hymddiheuriadau neu wedi mynegi amheuon a fyddent yn bresennol a fyddai'n effeithio ar gymhwysedd cyn-aelodau i eistedd ar baneli ac a allai effeithio ar gysondeb yr aelodau presennol hynny. Apeliodd i'r aelodau fynychu os yn bosibl. Roedd y dyddiad wedi'i ddarparu 12 mis ymlaen llaw ynghyd â chalendr cyfarfodydd y Cyngor a'r Pwyllgorau.

13.4 Esboniodd un aelod fod y dyddiad rheolaidd ganol mis Mai yn ei gwneud yn arbennig o anodd i athrawon uwchradd fynychu. Cytunodd y swyddogion i ystyried dyddiad hwyrach y flwyddyn nesaf.

13.5 Gofynnodd aelod arall i bapurau'r Hyfforddiant Diweddaru Disgyblu Blynyddol gael eu hanfon at yr holl aelodau na fyddent yn gallu bod yn bresennol. Aeth ymlaen i ofyn i restr o bresenoldeb yr aelodau mewn Pwyllgorau Safonau Proffesiynol a Phwyllgorau Ymchwilio gael ei chreu. Gan godi mater cymedroli perfformiad yr aelodau ar baneli, awgrymodd aelod arall y gallai fod gan y Pwyllgor Gweithredol rôl wrth asesu cysondeb penderfyniadau'r pwyllgorau hyn. Tra bod un aelod o'r farn bod cronfa'r aelodau paneli wedi mynd yn rhy fawr, roedd aelod arall yn croesawu'r cynnydd am ei fod yn lleddfu rhywfaint ar y pwysau ers i'r llwyth gwaith achosion gynyddu.

13.6 Yna tynnodd Hayden Llewellyn sylw'r aelodau at ddefnydd Cyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr o gwmni cymedroli allanol. Roedd y Cyngor wedi dechrau cynllun peilot o sesiynau dadfriffio yn dilyn pob Pwyllgor Safonau Proffesiynol ac roedd canlyniadau'r rhain wedi'u hadrodd yn y papur a ddarparwyd i'r aelodau o dan Eitemau Preifat.

13.7 Croesawodd yr aelodau'r egwyddor o gymedroli'r paneli oedd yn gwrando ar achosion ac, er nad oeddent yn gwrthod y syniad o wahodd cwmni allanol i ymgymryd â'r gwaith hwn, nodwyd y gallai aelodau'r Cyngor ymgymryd â'r rôl hon. Byddai'r rôl hon yn

annibynnol ac ni fyddai unrhyw gysylltiad rhwng hyn a'r broses o wneud penderfyniad ar y dydd. Lleisiodd un aelod ei bryder am gost allanoli'r gwaith cymedroli ond croesawodd yr adroddiad bod Cyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr wedi cynyddu nifer y rhybuddion a gyhoeddwyd i athrawon ar lefel Pwyllgor Ymchwilio.

13.8 Cafwyd trafodaeth fer am gydbwysedd paneli a oedd i fod i gynnig cydbwysedd o ran rhyw, sector a pherthnasedd. Rhoddwyd sicrwydd i'r aelodau bod pob Pwyllgor yn cael ei gadarnhau gan Gadeirydd y Cyngor a bod pob ymdrech yn cael ei gwneud i gael y cydbwysedd delfrydol er bod argaeledd yr aelodau wrth reswm yn cael effaith ar hyn. Rhoddwyd esboniad pam na ellid darparu amserlen o ddyddiadau gwrandawiadau yn y dyfodol a allai gynorthwyo aelodau i fod yn rhan o baneli gwrandawiadau.

13.9 Dywedodd y Dirprwy Gadeirydd y byddai angen i unrhyw broses gymedroli ystyried y broses o werthuso a dod i'r penderfyniad yn hytrach na chymedroli penderfyniadau eu hunain. Roedd pob achos yn wahanol yn ei hanfod er y gallai achosion ymddangos yn debyg ar bapur.

13.10 Yn olaf trafododd yr aelodau'r broses i'r Cyngor ddod i'w benderfyniad ynghylch cymedroli Pwyllgorau Safonau Proffesiynol. Cytunwyd y byddai'r Pwyllgor Cofrestru yn llunio safbwynt ac y byddai trafodaeth bellach ar y mater yng nghyfarfod nesaf y Cyngor ar 11.07.08.

13.11 Cododd un aelod fater datblygu Cod Ymddygiad Proffesiynol ar gyfer Aelodau. Cytunwyd i drafod y mater hwn yn y Sesiwn Breifat.

14. Diweddariad ar Athro Siartredig (CyngACC24/08)

14.1 Gan roi diweddariad ar y peilot Athro Siartredig, nododd y Prif Weithredwr y cynnydd a wnaed ar y cynlluniau peilot a oedd wedi dechrau yn ystod blwyddyn weithredol 2007-08. Roedd y peilot cyntaf, *Datrys wrth Drafod* wedi'i gwblhau a byddai adroddiad crynodol ar gael i aelodau'r Pwyllgor Polisi ym mis Mehefin 2008. Roedd peilot y llwybr achredu wedi dechrau ar 29ain Chwefror 2008 gyda chyfarfod o'r cyfranogwyr a gynhaliwyd yn Llanfair-ym-Muallt.

14.2 Roedd y Cyngor wedi datblygu rhaglen i athrawon yng Nghymru ennill statws siartredig yn rhan o'i Fframwaith Datblygiad Proffesiynol. Roedd cynllun peilot y rhaglen hon wedi dechrau ym mis Medi 2007.

14.3 Tynnodd sylw hefyd at y 6 pheilot a oedd yn dechrau yn ystod blwyddyn weithredol 2008-09. Roedd y cyntaf o'r rhain, *Gwerthuso a Hunanadfyfyrio* wedi dechrau ar 24ain Ebrill 2008 ym Mhrifysgol Caerdydd. Roedd 15 athro wedi dechrau ar y peilot a byddent yn parhau drwy ymgymryd ag ail fodiwl, *Dysgu, Addysgu ac Asesu* ym mis Hydref 2008.

14.4 Roedd y Cyngor hefyd wedi cyhoeddi pecynnau gwybodaeth i athrawon a oedd wedi mynegi diddordeb mewn cymryd rhan yn y peilot ond nad oeddent wedi'u dethol eto. Roedd yr unigolion hyn wedi'u gwahodd i ymgeisio am y cynlluniau peilot a oedd yn weddill, a fyddai'n cael eu cynnal mewn nifer o leoliadau ledled Cymru.

14.5 Hysbyswyd yr aelodau bod y contract ar gyfer cynnal gwerthusiad annibynnol o'r cynlluniau peilot wedi'i ddyfarnu i'r Sefydliad Ymchwil Addysg Gymwysedig yn APCC. Roedd cyfarfod cwmpasu cychwynnol wedi'i gynnal gyda'r Athro David Egan, Cyfarwyddwr y Sefydliad ar 7fed Ebrill. Roedd y tendrau wedi'u hasesu gan y Prif Weithredwr, Dirprwy Gadeirydd y Cyngor a'r Dirprwy Brif Weithredwr (Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon) ar ôl i dendrau diwygiedig gael eu cyflwyno a oedd yn bodloni gofynion penodol y Cyngor ac a oedd o fewn y gyllideb gytunedig o £50,000. Byddai cyllid grant yn cael ei dderbyn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i dalu cost y gwerthusiad.

14.6 Gwahoddwyd yr aelodau i ailystyried y dyddiad ar gyfer cychwyn rhaglen Athro Siartredig yn y brif ffrwd a oedd wedi'n nodi'n wreiddiol fel mis Medi 2009, ac i drosglwyddo'r drafodaeth gychwynnol yn hyn o beth i'r Pwyllgor Polisi. Byddai'r Cyngor yn derbyn adroddiad ar hyn ar 11eg Gorffennaf 2008.

14.7 Dywedodd un aelod y byddai angen i'r Cyngor gynnal gwerthusiad llawn cyn symud y rhaglen i'r brif ffrwd gan ystyried materion pwysig fel y cyfnod sylfaen. Rhoddwyd eglurhad ar swm y cyllid a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a nodwyd bod gwaith y Cyngor yn y maes hwn o fewn y gyllideb.

14.8 Gofynnwyd am adroddiad gwerthuso manwl ar ganlyniadau'r cyrsiau unigol. Croesawodd y Prif Weithredwr yr awgrym hwn a byddai'n gwneud trefniadau i'r Athro Egan fynychu cyfarfod y Cyngor ar 22ain Hydref 2008.

14.9 Hysbysodd Hayden Llewellyn (*Dirprwy Brif Weithredwr, Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon*) yr aelodau bod y Dirprwy Gadeirydd wedi mynychu mwyafrif digwyddiadau'r modiwlau peilot ac y byddai'n gallu darparu adborth i'r aelodau ar eu cynnwys.

14.10 Nid oedd unrhyw bwyntiau pellach i'w hegluro ac roedd yr aelodau'n fodlon ar yr adroddiad diweddaru.

15. Datblygu safbwynt y Cyngor ar drefniadau arolygu'r dyfodol (CyngACC 25/08)

15.1 Cyflwynwyd y papur hwn gan y Cadeirydd fel Cadeirydd y Tasglu a oedd yn llunio safbwynt y Cyngor ar drefniadau arolygu Estyn yng Nghymru yn y dyfodol.

15.2 Roedd y Cyngor wedi cytuno i sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn ei gyfarfod ar 5ed Chwefror 2008. Roedd cyfarfod cyntaf y grŵp wedi ystyried rôl arolygu yn rhan o'r broses gwella ansawdd gyffredinol ac wedi nodi ei gysylltiadau ag ymagwedd dair lefel y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion yng Nghymru a allai, yn ei dro, arwain at gysyniad newydd o 'arolygu tair lefel'.

15.3 Roedd y cofnodion a atodwyd wedi'u cywiro ers i bapurau'r Cyngor gael eu cyhoeddi i nodi bod Elwyn Davies wedi mynychu'r cyfarfod ar 21ain Ebrill 2008 a bod Anne Robertson wedi anfon ei hymddiheuriadau.

15.4 Dywedodd y Cadeirydd nad ysgolion yn unig ddylai fod yn atebol am ansawdd y gwasanaeth a ddarperir i blant ysgol yng Nghymru. Er yn ymwybodol na ddylai llwyth gwaith athrawon a rheolwyr llinell gynyddu, dywedodd y dylai hunanwerthuso fod wrth wraidd y broses arolygu yn y dyfodol. Amlygodd y strwythur oedd yn ymddangos ar gyfer y papur safbwynt a ddarparwyd i'r aelodau ac a oedd yn nodi dau gam: erbyn 2010 a'r tymor hwy.

15.5 Roedd cyfarfod pellach wedi'i gynnal ar 21ain Ebrill 2008 ac roedd y cyfarfod olaf wedi'i drefnu ar gyfer 21ain Mai 2008.

15.6 Aeth y Prif Weithredwr ymlaen i adrodd am ei gyfarfod gyda Bill Maxwell ar 30ain Ebrill 2008 pan groesawyd gwaith y Cyngor ar ddatblygu safbwynt ar gyfer trefniadau arolygu Estyn at y dyfodol. Roedd y Prif Weithredwr a'r Cadeirydd wedi'u gwahodd i gyflwyno'r drafft terfynol i Dr Maxwell yn bersonol.

15.7 Croesawodd yr aelodau'r adroddiad a chefnogwyd y gwaith a wnaed hyd yma gan aelodau'r Tasglu. Cafwyd ymateb da i'r syniad o sefydlu ymagwedd dair lefel ac roedd un aelod o'r farn y gallai fod o gymorth symud i ffwrdd o'r 'diwylliant o fai' a oedd yn

wynebu llawer o athrawon mewn ysgolion yn dilyn arolygiad. Lleisiwyd yr angen hefyd am feddwl cydgysylltiedig.

15.8 Yn olaf, croesawodd un aelod fwriad y Prif Arolygydd i gysylltu ag arolygiaethau eraill, a ddylai fod o fudd i holl wasanaethau plant.

16. Proffesiynoli'r gweithlu AB (CyngACC 26/08)

16.1 Rhoddodd Kevin Pascoe ddiweddariad i'r aelodau ar y gwaith o lunio safbwynt drafft ar broffesiynoli athrawon o fewn y gweithlu AB.

16.2 Atgoffwyd yr aelodau eu bod wedi ystyried papur ymchwiliol yng nghyfarfod y Cyngor ar 5ed Chwefror 2008. Yn ystod y trafodaethau hynny cytunwyd y dylai safbwynt polisi o'r fath ganolbwyntio ar athrawon yn y sector addysg bellach yn hytrach na rolau neu sectorau eraill, gydag ystyriaeth arbennig i gyflwyno rhaglenni ar y cyd rhwng ysgolion ac AB yn rhan o'r rhaglen Llwybrau Dysgu 14-19.

16.3 Roedd y Cyngor wedi cyflwyno papur safbwynt i Adolygiad Webb ym mis Mawrth 2007. Nid oedd unrhyw ymateb wedi'i dderbyn hyd yma.

16.4 Cynghorwyd yr aelodau y câi'r papur safbwynt ei baratoi ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Polisi ar 13eg Mehefin 2008 ac y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno wedi hynny i'r Cyngor ar 11eg Gorffennaf 2008.

16.5 Cafwyd trafodaeth fer. Dyma oedd y prif sylwadau: byddai angen cael syniad llawn o'r costau petai'r Cyngor yn cael ei wahodd i gymryd cyfrifoldeb am y maes gwaith hwn a dylid ystyried lleihau ffi gofrestru'r Cyngor petai mwy o bobl yn cofrestru.

17. Cynllun Corfforaethol 2008-11 a Chynllun Gweithredol 2008-09 (CyngACC28/08)

17.1 Roedd fersiynau terfynol Cynllun Corfforaethol 2008-11 a Chynllun Gweithredol 2008-09 wedi'u darparu i'r aelodau er gwybodaeth. Roedd y Cyngor wedi ystyried drafft o'r ddau gynllun yn y cyfarfod ar 5ed Chwefror 2008 ac wedi trosglwyddo'r gwaith o'u cymeradwyo'n derfynol i'r Pwyllgor Gweithredol.

17.2 Gan gyfeirio at Gynllun Corfforaethol 2008-11, gofynnodd un aelod am eglurhad ar nifer o bwyntiau. Gan gyfeirio at Amcan 5 a amlinellodd "*systemau cyllid, personél a gweinyddol effeithlon, effeithiol a chadarn sy'n cefnogi cyflwyno amcanion y Cyngor"*, cwestiynwyd y costau a dalwyd am leoliadau i gynnal cyfarfodydd y Cyngor, gwrandawiadau Safonau Proffesiynol ac allanoli'r gwaith o greu bywgraffiadau aelodau i asiant Cysylltiadau Cyhoeddus y Cyngor, Freshwater Merlin. Gan gofio dewisiadau blaenorol am leoliadau ar gyfer gwaith y Cyngor, roedd yr aelod yn pryderu am y cynnydd yn y costau.

17.3 Rhoddodd y Prif Weithredwr sicrwydd i'r aelodau bod lleoliadau priodol i'r Cyngor gynnal ei gyfarfodydd chwarterol a'i Bwyllgorau Safonau Proffesiynol yn cael eu trefnu ar gyfraddau cystadleuol. Cafwyd anawsterau yn y gorffennol gyda lleoliadau nad oeddent yn darparu'n ddigonol ar gyfer gofynion cyfarfodydd busnes, nac ychwaith yn cynnig y preifatrwydd angenrheidiol ar gyfer gwaith safonau proffesiynol. Aeth ymlaen i esbonio nad oedd adnoddau ar gael i ymgymryd â'r gwaith o lunio bywgraffiadau oedd ei angen mewn cyfnod amser byr ac felly roedd hyn wedi'i allanoli i ddeiliaid presennol contract Cysylltiadau Cyhoeddus y Cyngor. Rhoddwyd sicrwydd bod gwariant y Cyngor yn cael ei reoli'n ofalus a gwahoddwyd yr aelodau i gynnig arweiniad mwy darbodus os byddent o'r farn ei bod yn briodol gwneud hynny.

17.4 Ychwanegodd y Cadeirydd y byddai manteision ariannol petai'r Cyngor yn berchen ar ei eiddo ei hun a fyddai o gymorth i gadw costau'n isel yn lle talu am leoliadau i gynnal cyfarfodydd y Cyngor a'r Pwyllgor Safonau Proffesiynol.

17.5 Cododd yr aelodau nifer o bwyntiau a sylwadau mewn ymateb i'r uchod. Amlygodd un aelod pa mor bwysig oedd hi i gynnal cyfarfodydd y Cyngor mewn gwahanol rannau o Gymru er mwyn i'r cyhoedd a'r proffesiwn eu mynychu os dymunwyd. Ychwanegodd fod angen i'r lleoliad dethol fod yn briodol at y dasg tra'n sicrhau bod anghenion sylfaenol yn cael eu bodloni, fel digon o le parcio er enghraifft. Roedd yr aelodau'n cytuno y dylai fod cydbwysedd rhwng cadw costau i lefel synhwyrol tra'n sicrhau bod aelodau a oedd wedi teithio cryn bellter yn derbyn llety cyfforddus. Teimlwyd ei bod yn bwysig i gyfarfodydd gael eu cynnal yng Ngogledd Cymru er mwyn adeiladu ar bresenoldeb y Cyngor yna. Nododd aelod arall ei bod yn fwyfwy annhebygol y câi athrawon eu rhyddhau o'r ysgol i arsylwi.

17.6 Er y galwyd i derfynau gael eu pennu ar symiau a gaiff eu gwario ar leoliadau ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor a Phwyllgorau Safonau Proffesiynol, roedd yr aelodau'n cytuno mai'r Pwyllgor Archwilio oedd yn gyfrifol am oruchwylio bod gwariant y Cyngor yn ddarbodus ac o fewn y canllawiau. Roedd y cyfrifoldeb hwn ar y cyd â gwaith Archwilwyr Mewnol y Cyngor.

17.7 Cytunwyd y byddai'r dasg o adolygu costau llogi lleoliadau yn cael ei throsglwyddo i'r Pwyllgor Archwilio yn y cyfarfod ar 9fed Mehefin 2008.

18. Unrhyw fater arall.

18.1 Nid oedd unrhyw fater arall.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor
Ddydd Gwener 11eg Gorfennaf 2008
yng
Ngwesty'r Celt, Caernarfon